18. Safleoedd Ysgolion a Buddsoddiadau Cyfalaf

Mae tir ac adeiladau ysgol yn asedau cyhoeddus pwysig. Mae gan lywodraethwyr nifer o gyfrifoldebau cyfreithiol a chyfrifoldebau eraill, sy'n amrywio yn ôl y categori o ysgol, mewn perthynas â:

- buddsoddiadau cyfalaf;
- prosiectau adeiladu;
- cynnal a chadw tir ac adeiladau.

VA O ganlyniad i Ddeddf Addysg 1944 fel y'i diwygiwyd yn ddiweddarach, gwneir darpariaethau penodol yn achos buddsoddiadau mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Trafodir y rheini ar wahân isod.

Tir ac Adeiladau

VA VC F 1. Mae tir ac adeiladau ysgolion cymunedol yn eiddo i'r ALl. Mewn ysgolion sefydledig, y corff llywodraethu neu'r ymddiriedolwyr yw perchnogion y tir. Yn achos yr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, mae adeiladau a thir yr ysgol fel arfer yn eiddo i'r ymddiriedolwyr ond yr awdurdod lleol, yn aml, yw perchennog tir y meysydd chwarae.

Cyllid Cyfalaf

2. Yn 'Cymru'n Un' ymrwymodd Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu ysgolion a fydd yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

3. Mae'n gyfnod trosiannol ar hyn o bryd o ran darparu cyllid cyfalaf, gan fod Llywodraeth y Cynulliad ar ganol datblygu ei rhaglen strategol gyflawn ar gyfer buddsoddi mewn addysg ledled Cymru. Bydd hyn yn creu newid sylweddol trwy ymadael â'r broses bresennol sy'n seiliedig ar fformiwlâu, a mabwysiadu cynllun buddsoddi strategol a dargedir yn ôl yr angen. Bydd y dull newydd yn un rhagweithiol a fydd galluogi'r awdurdodau lleol i ddatblygu a chyflawni eu strategaethau ar gyfer buddsoddi yn ysgolion yr unfed ganrif ar hugain.

4. Mae gan yr ALlau eu cronfa gyfalaf gyffredinol eu hunain, nad yw wedi ei neilltuo at unrhyw ddibenion penodedig, ac a ddarperir trwy'r Setliad Refeniw Llywodraeth Leol. Caiff yr awdurdodau lleol ddefnyddio cyllid o ffynonellau eraill yn ogystal, gan gynnwys derbyniadau cyfalaf a benthyciadau darbodus ar gyfer cynnal a buddsoddi yn eu hadeiladau a'u hasedau.

5. Yr ALl unigol a fydd yn penderfynu ynghylch unrhyw waith cyfalaf mawr mewn perthynas ag adeiladau ysgolion a gynhelir, a hynny, fel arfer, ar ôl ymgynghori â'r ysgolion. Os digwydd bod gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir unrhyw bryderon ynghylch cyflwr yr ysgol neu fater arall, dylai gysylltu â'r ALl i ofyn am gyngor ac arweiniad.

6. Darperir y cyllid ar gyfer atgyweirio a gwaith cynnal a chadw beunyddiol mewn ysgolion cymunedol a gynhelir trwy gyllidebau dirprwyedig yr ysgolion.

Trefniadau Cyllido ar gyfer Gwaith ar Safleoedd mewn Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir

7. Mae'r Rhaglen Grant Cyfalaf Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir (VA) yn darparu cymorth ariannol ar gyfer sefydlu ac ar gyfer gwaith cyfalaf i gynnal a chadw ysgolion o'r fath, mewn partneriaeth â llywodraethwyr yr ysgol a'r awdurdodau lleol.

8. Rhennir y cyfrifoldeb am ddarparu, atgyweirio a chynnal ysgol a gynorthwyir rhwng llywodraethwyr yr ysgol a'r awdurdod lleol.
Y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am adeiledd allanol yr ysgol. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu yn wreiddiol ac am atgyweirio a chynnal a chadw'r gegin, y ffreutur, yr ystafell ymchwiliadau meddygol, tŷ'r gofalwr a'r meysydd chwarae. O dan baragraff 5 o Atodlen 3 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae pŵer gan y Cynulliad i roi cymorth grant o 85% o gost y gwariant cymeradwy gan y llywodraethwyr; ac mae gofyn i'r llywodraethwyr eu hunain gyfrannu'r 15% sy'n weddill.

Derbyniadau o Werthu Asedau: Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir

VA 9. Pennir y dull o ymdrin â derbyniadau gwerthiant, a ryddheir yn sgil prosiect adeiladu a gyllidir â grant cyfalaf yn Rheoliadau Addysg (Grantiau mewn perthynas ag Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir) 1999.

VA 10. Mae'r Rheoliadau uchod yn pennu'r grant a delir ar gyfer rhai mathau o wariant, a hefyd yn darparu'n benodol ar gyfer cymryd i ystyriaeth y derbyniadau gwerthiant net wrth benderfynu ar y grant a delir i gorff llywodraethu, os disgwylir y bydd y derbyniadau o'r fath ar gael iddo. Mae'r polisi hwn yn gweithredu ym mhob achos pan fo arian gwerthiant ar gael, neu pan ddisgwylir i arian gwerthiant fod ar gael, i'r ymddiriedolwyr, y corff llywodraethu neu'r hyrwyddwyr.

Treth Ar Werth (TAW)

VA 11. Ni all Llywodraeth y Cynulliad roi arweiniad ar faterion ynglŷn â rhwymedigaeth treth ar werth ar brosiectau buddsoddi neu adeiladu. Ym mhob achos, dylid gofyn am gyngor gan Gyllid a Thollau EM.

Y Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol)

VA 12. Rhaid i'r awdurdodau lleol sicrhau bod ysgolion a gynhelir yng
VC Nghymru a Lloegr yn cydymffurfio â Rheoliadau Addysg (Mangreoedd
F Ysgol) 1999. Mae'r Rheoliadau cyfredol, a ddaeth i rym ar 1 Chwefror 1999, yn pennu safonau gofynnol ar gyfer mangre (safle) pob ysgol bresennol neu newydd a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr, hynny yw, ysgolion cymunedol, arbennig cymunedol, sefydledig, arbennig sefydledig a gwirfoddol.

13. Rhaid darparu isafswm o arwynebeddau meysydd chwarae ar gyfer gemau tîm ym mhob ysgol sydd â disgyblion dros wyth mlwydd oed. Mae hyn yn gymwys i bob ysgol a gynhelir, gan gynnwys ysgolion arbennig, sydd â disgyblion dros wyth mlwydd oed, ond nid yw'n gymwys i unedau cyfeirio disgyblion. Mae'n bwysig cadw mewn cof beth yn union a olygir wrth isafswm gofynnol o feysydd chwarae ar gyfer gemau tîm – sef y ddarpariaeth leiaf a ganiateir. Nid targed yw hwn ac ni ddylid lleihau arwynebedd presennol y meysydd chwarae gemau tîm er mwyn ei gyrraedd.

14. Diffinnir meysydd chwarae gemau tîm fel "meysydd chwarae sydd, o ystyried eu ffurf, yn addas ar gyfer chwarae gemau tîm, ac sydd wedi'u paratoi at y diben hwnnw". Gallant gynnwys cyrtiau gemau caled, cyrtiau tennis, lleiniau glaswellt a lleiniau artiffisial pob tywydd. Gellir ystyried buarth ysgol yn faes chwarae gemau tîm, ar yr amod ei fod wedi'i baratoi ar gyfer gemau tîm, sef:

- pêl-rwyd;
- pêl-fasged;
- tennis;
- pêl-droed pump bob ochr;
- hoci;
- pêl foli;
- rownderi; neu
- gemau tîm eraill a chwaraeir fel rheol ar leiniau neu gyrtiau sydd wedi'u marcio'n bwrpasol.

15. Nid yw buarthau ysgol neu fannau chwarae eraill sy'n cynnwys cyfarpar chwarae yn cyfrif fel meysydd chwarae gemau tîm. Nid oes raid i faes chwarae gemau tîm gael gorchudd o laswellt. Fodd bynnag, rhaid i'r rhan laswelltog o unrhyw feysydd gemau tîm allu ymdopi â chwarae gemau tîm gan y disgyblion am saith awr yr wythnos ym mhob ysgol yn ystod y tymhorau ysgol. Er mwyn trefnu cylchdro i ganiatáu i'r glaswellt ymadfer, mae'n bosibl y bydd angen ailfarcio rhai o'r lleiniau o bryd i'w gilydd.

16. Yr awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r lleiafswm gofynnol statudol o feysydd ar gyfer gemau tîm. Mewn achosion lle nad oes modd bodloni'r safonau gofynnol, rhaid i'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol wneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am lacio'r gofyniad statudol.

Cynllunio i Gynyddu Mynediad i Ysgolion ar gyfer Disgyblion Anabl

17. Mae Rhan IV o Ddeddf Gwahaniaethau ar sail Anabledd 1995 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 a Deddf Cydraddoldeb 2006) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol ac ysgolion i gynllunio ar gyfer cynyddu, fesul cam, hygyrchedd yr ysgolion i ddisgyblion anabl (y ddyletswydd cynllunio).

18. Daeth y ddyletswydd hon i rym yng Nghymru yn Hydref 2003. Dylai strategaethau hygyrchedd y awdurdodau lleol a chynlluniau hygyrchedd yr ysgolion fod wedi eu cwblhau erbyn 1 Ebrill 2004, a byddant yn cael eu hadolygu bob tair blynedd.

19. Cyhoeddwyd canllawiau i'r awdurdodau lleol ac i'r ysgolion ynglŷn â'u cyfrifoldebau - Cylchlythyr Rhif 15/2004 o'r enw Cynllunio ar gyfer Cynyddu Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion ag Anableddau.

20. Mae gwella hygyrchedd ysgolion yn golygu mwy na symud rhwystrau yn unig – mae'n ymwneud â chynyddu mynediad yn yr ystyr ehangaf. Mae'r ddyletswydd cynllunio yn cwmpasu tri maes:

- cynyddu i ba raddau y mae disgyblion anabl yn gallu cymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol;
- gwella amgylchedd ffisegol yr ysgolion; a;
- gwella'r modd y caiff gwybodaeth ei darpau i ddisgyblion anabl – y math o wybodaeth sy'n cael ei chyfleu mewn ysgrifen i ddisgyblion nad ydynt yn anabl.

21. Bydd y ddyletswydd cynllunio yn helpu'r awdurdodau lleol a'r ysgolion i wella hygyrchedd ar gyfer disgyblion anabl mewn ffordd gynlluniedig a strategol, a thrwy hynny galluogi disgyblion anabl i ddatblygu eu potensial llawn.

22. Mae angen hefyd i'r awdurdodau lleol a'r ysgolion gyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol o dan Rannau II a III o'r Ddeddf Gwahaniaethau ar sail Anabledd, a ddaeth i rym fesul cam ers 1996 ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol Mae Rhan III yn cynnwys dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i unrhyw nodweddion ffisegol sy'n peri anhawster afresymol i bobl anabl sydd eisiau mynychu digwyddiadau cyhoeddus mewn ysgolion.

Adnoddau Defnyddiol er Gwybodaeth Bellach

Y Gyfraith

Deddf Addysg 2002
Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 – Atodlenni 3, 6, 8 a 22
Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999: OS 1999/0002

Canllawiau

Canllawiau Cyllid Cyfalaf ar wefan Llywodraeth y Cynulliad [sy'n cael eu paratoi ar hyn o bryd]
Rhaglen Grant Cyfalaf Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir – Arweiniad i Lywodraethwyr

Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd – Cynllunio i wella Mynediad i Ysgolion i Ddisgyblion Anabl' Cylchlythyr 15/2004
Cylchlythyr 15/99 y Swyddfa Gymreig – Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC): www.hmrc.gov.uk

Mae Gwasanaeth Cynghori Cenedlaethol yr HMRC ar Dreth ar Werth yn ymdrin ag ymholiadau ffôn cyffredinol ar 0845 010 9000. Gellir anfon ymholiadau ysgrifenedig at:

Policy Adviser, CT & VAT
Supply of Services & Public Bodies
HM Revenue & Customs
3C/10
100 Parliament Street
London SW1A 2BQ

Ffôn: 0207 147 0032